# y Bathdy Brenhinol a'r Rhyfel Byd Cyntaf

'Arian, Arfau Rhyfel a Medalau'

Newidiodd bywyd Prydain yn llwyr yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf.


## ARIAN BATH



Dyma'r arian oedd mewn cylchrediad ar ddechrau'r rhyfel:

**EFYDD** ffyrling, dimai, ceiniog
**ARIAN** tair ceiniog, chwe cheiniog, swllt, dau swllt, hanner coron
**AUR** hanner sofren, sofren

## BETH DDIGWYDDODD I'R HOLL AUR?





Yn 1914, daeth yn amlwg fod angen yr aur i dalu am gostau'r rhyfel. Credai Canghellor y Trysorlys – y Cymro David Lloyd George – yn gryf na allai'r wlad fforddio defnyddio darnau aur; credai hefyd fod pobl Prydain, wrth eu defnyddio, yn rhoi'r argraff eu bod yn helpu'r gelyn. O fewn dyddiau, cyhoeddwyd arian papur y Trysorlys gwerth £1 a 10 swllt, a buan iawn y diflannodd y darnau aur oedd mewn cylchrediad. Hwn oedd y tro olaf i ddarnau aur fod mewn defnydd cyffredinol, a newidiwyd yr arian bath am byth.

## ARIAN ac EFYDD

Cododd y galw am ddarnau arian ac efydd yn sylweddol yn ystod y rhyfel. Roedd mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o arian – nid yn unig oherwydd nad oedd aur ar gael, ond hefyd oherwydd bod yr holl weithgarwch diwydiannol ar raddfa enfawr yn cynyddu'r galw amdano. Roedd mwy o ferched yn gweithio nag erioed o'r blaen, ac roedd yn rhaid talu cyflogau. Bu'n rhaid i'r Bathdy weithio bob awr o'r dydd a'r nos i gwrdd â'r galw, ac ar ôl y rhyfel penderfynwyd is-gontractio'r gwaith o gynhyrchu darnau efydd, dros dro, i fathdai yn Birmingham. Mae'n hawdd adnabod y darnau hyn gan fod y llythrennau 'H' neu 'KN' wedi eu stampio yn ymyl y dyddiad.



## Effaith
# TYMOR HIR



Cododd arian yn ei bris yn ystod ac ar ôl y rhyfel. Erbyn 1920 roedd gwerth y darnau arian wedi'u toddi yn uwch na'u hwynebwerth. Roedd angen newid y sefyllfa ar frys. Penderfynodd un o bwyllgorau'r cabinet – yn cynnwys David Lloyd George, a oedd bellach yn Brif Weinidog, ac Austen Chamberlain, Canghellor y Trysorlys – fod yn rhaid gostwng gwerth y darnau o 925 rhan o arian pur (safon a ddefnyddiwyd ers y cyfnod Eingl-Sacsoneg) i safon is, sef 500. Defnyddiwyd yr aloi arian newydd hwn hyd ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

## POBL



Aeth llawer o staff y Bathdy i ymladd yn y rhyfel, ond ni ddaeth nifer ohonynt yn ôl. Ar 13 Mehefin 1917 glaniodd bom o un o awyrennau'r gelyn ar y Bathdy gan ladd 4 aelod o'r staff ac anafu llawer. Roedd Sir John Cawston, Dirprwy Feistr y Bathdy, yno ar y pryd. Disgrifiodd ei ferch 'y diwrnod erchyll y cafodd y Bathdy ei daro, gan ladd llawer o ddynion'. Cafodd y digwyddiad effaith fawr ar Cawston: 'ar ôl gwneud popeth a allai i helpu, roedd yn swp sâl...'

Ar ôl y rhyfel, roedd y Bathdy'n awyddus i gyflogi cyn-filwyr. Un ohonynt oedd Charles Coombes, cerflunydd cofebau rhyfel; ef oedd cynllunydd ffigur Britannia a fabwysiadwyd ar gyfer y geiniog efydd yn 1937.

## MEDALAU



Yn ogystal â medalau am ddewrder, a Sêr 1914 a 1914–15, roedd angen i'r Bathdy gynhyrchu wyth miliwn o Fedalau Rhyfel Prydeinig a phum miliwn o Fedalau Buddugoliaeth. I'w helpu i ddod i ben â'r galw, roedd yn rhaid i'r Bathdy gael cymorth gan ffatri fedalau dros dro yn Woolwich.

## ARFAU RHYFEL



Gwnaeth y Bathdy gyfraniad uniongyrchol i'r rhyfel gyda'i waith ar arfau. Roedd y gwaith arbenigol yn cynnwys:

- Addasu'r cloriannau arian awtomatig i bwyso cetris, gan waredu'r rhai oedd yn rhy drwm neu'n rhy ysgafn
- Cynhyrchu peiriannau mesur pwrpasol a allai wirio trwch cetris mân arfau
- Cynhyrchu peiriannau gosod cetris i lenwi gwregysau cetris gynau-peiriant
- Cynhyrchu ystod eang o fesuryddion i safon uchel o gywirdeb, eu hatgyweirio neu eu trawsnewid i ffitio dyfeisiadau eraill, a chynhyrchu offer anelu magnelau.

Roedd adnoddau'r Bathdy'n addas iawn i gyflenwi'r sgiliau peirianneg arbenigol oedd yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith.